**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Gorffennaf 2017

Annwyl Llywydd

**Gweithredu Deddf Cymru 2017**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf.

Trafodwyd llythyr yr Ysgrifennydd Gwladol yn ein cyfarfod ar 17 Gorffennaf.

Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r Ysgrifennydd Gwladol yn pennu 6 Ebrill 2018 fel y Prif Ddiwrnod Penodedig mewn rheoliadau.

Er bod tystiolaeth yn awgrymu na fydd y setliad newydd yn rhoi'r setliad datganoli cliriach a mwy diffiniedig yr oeddem i gyd yn gobeithio ei gael, rydym yn sicr yn cytuno bod angen gwella'r gwaith rhwng sefydliadau.

Bydd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y DU yn gadael yr UE a'r potensial o gymhlethdod pellach yn cael ei ychwanegu i'r setliad datganoli.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565